RN - 23299 Jau11-1 M 30 3765 WEL 1847?

# BETH YDYW YR EFENGYL?

NI all dyn myfyrgar lai na rhyfeddu oherwydd yr amrywiol a'r gwahanol atebion a geir i'r cwestiwn pwysig hwn gan broffeswyr, ie, "pregethwyr efengyl" (fel eu gelwir), ac hyd y nod y wlad a elwir yn "*wlad yr efengyl.*" Canys, y mae mor anmhosibl i fwy nag un o'u croesatebiadau fod yn wir, ag ydyw i wirioneddau groesi eu gilydd; ac etto mae defnyddioldeb yr efengyl yn dibynu ar gael yr unig wir atebiad. Nad beth a feddylia ein cydoeswyr am danom ni a'n hefengyl, hyderwn fod genym ddigon o adnabyddiaeth o'r *efengyl dragwyddol* i ateb y cwestiwn hwn yn ddealladwy, serch y dichon fod yn wahanol i atebiadau pawb ereill yn y wlad. Er symud y rhwystrau o'n ffordd i ateb y cwestiwn, dangoswn beth *nad* yw yn efengyl.

1. Nid y *Testament Newydd* yw yr efengyl, serch haeru o lawer hyny. Er mai dynion santaidd Duw a lafarasant yr ysgrythyrau, megys eu cynhyrfwyd gan yr Ysbryd Glân, ac er mor *wirioneddol, llesiol,* ac *anghenrheidiol* ydynt, etto *nid hwy yw yr efengyl,* canys yr oedd yr efengyl mewn bodoldeb cyn ysgrifenu gair o'r Testament Newydd, ac yn meddiant yr apostolion cyn yr anfonodd Crist hwynt i'w phregethu. Y mae efengyl Mab Duw yn *dragwyddol,* ac o ganlyniad, cyn, ac yn annibynol ar, bob llyfr a fu erioed ar ein daear ni. Nid, "Ewch ac ysgrifenwch y Tostament Newydd," a ddywedodd Iesu Grist, ond "Ewch a *phregethwch yr efengyl,*" nid y llyfr. Os y llyfr yw yr efengyl, yna yr oedd dynion drwg yn difetha yr efengyl pan yn dystrywio y llyfr. Os yw yr efengyl yn y llyfr, yna mae yr efengyl mor groes iddi ei hun ag yw yr amrywiol gyfieithiadau o'r Testamentau. Hefyd, os yw yr efengyl yn y llyfr, pa fodd nad yw pob dyn (nad pa mor ddrwg) ag sydd yn llogellu y llyfr yn meddu yr efengyl? Etto, os yr un peth yw y Testament a'r efengyl, yna mae yr efengyl yn ddarniog, neu mor ddiffygiol ag yw y Testament o ysgrifeniadau yr awduron ysbrydoledig a addefa, a'r epistolau y cyfeiria atynt. O'r ochr arall, os nad yw yr efengyl yn y Testament (yr hwn feddylddrych sy'n wallgofrwydd) pa fodd yn enw rheswm y dichon y llyfr awdurdodi un dyn i bregethu, nac i ymwneyd dim a'r efengyl yn awr, mwy nag y buasai cael meddiant o rai o'i epistolau yn awdurdodi yr ysgrifenyddion, neu y neb a ewyllysiasai fyned a'u darllen, a'u hesponio yn nyddiau yr apostolion? Mab

Duw a ryddes yr hawl i'w apostolion, a *hwythau*, nid eu *hysgrifeniadau*, a alwasant ac a ordeiniasant *ddynion*, nid *llyfrau*, ereill. Ac felly dibyna ar y rhai a hònant eu hawl o'r llyfr, naill ai i brofi paham, pa bryd, a pha fodd y cyfnewidiodd Duw drefn ei Fab o awdurdodi dynion, neu addef eu hunain heb awdurdod i ymwneyd â'r efengyl! Nid yw yr ymresymiadau hyn yn dibrisio, nac yn tueddu un gradd mewn un dull i fychanu yr hyn yw yr oracl ddwyfol, santaidd, a defnyddiol, cofier! canys nid yw y Testament ei hun yn hòni yr hawl i ordeinio neb; ni feddyliodd Duw erioed iddo wneyd hyny, nac i neb wneyd y defnydd hyny o hono; ac ni chynnygia neb yr wrthddadl yna ond y rhai sydd rhy ddwl i ddeall y gwahaniaeth sydd rhwng y Testament a'r *efengyl* ag y sonia y llyfr am dani. Ni ellir cynnwys sylwedd yr efengyl rhwng dau glawr unrhyw lyfr yn y byd.

2. Nid pregethau neu eiriau, hyd y nod yr apostolion, yw yr efengyl ychwaith. Awgryma "pregethu," ddesgrifiad o wrthrych ac annogaeth i'w feddiannu,—felly gwelir cymmaint o wahaniaeth rhwng y *bregeth* a'i *gwrthrych*, ag sydd rhwng y darluniad o unrhyw beiriant, dinas, neu wlad, a'r sylwedd a ddarlunir, ie, gymmaint mwy na hyny ag sydd rhwng peiriant difywyd a'r nerth gweithredol a guddir iddo, neu y gwaith a wna. Gall dyn gredu pob gair o bob pregeth a glywodd erioed, ie, pob gair sydd yn y gyfrol santaidd, yn ddiysgog, ac etto bod yn hollol amddifad o'r efengyl. "Ni ddaeth ein hefengyl ni mewn gair yn unig," ebe Paul, yr hyn a brawf nad y "gair," ond rhywbeth a ddesgrifiai y "gair," a'r hwn a ddeilliodd o rywle arall, oedd yr efengyl.

3. Er fod "newyddion da" yn gyssylltiedig a'r efengyl, etto nid y *newyddion* yw yr efengyl, onide cynnwysir yr efengyl mewn *geiriau yn unig*, canys *geiriau yn unig* sydd ofynol i drosglwyddo unrhyw newyddion da neu ddrwg i feddiant y gwrandawwr. Os yr un peth yw yr efengyl a "newyddion da," y mae cynnifer o efengylau ag sydd o newyddion da. Y mae cymmaint o wahaniaeth rhwng yr efengyl â newyddion da, ag sydd rhwng pasiad y *Corn Bill*, a'r mwynhad o'i effeithiau daionus. Newyddion gorfoleddus iawn oedd fod byddinoedd Brydain wedi concro yr Indiaid dwyreiniol, serch iddynt ladd miloedd o'u cyd-ddynion; a gorchymynwyd gan ben yr eglwys wladol i bawb o'i haelodau dalu eu diolchgarwch yn gyhoeddus i Dduw y rhyfel hwn, am y gallu a gawsant i yru cynnifer o flaen ei frawdle, heb gymmaint a chlywed son am efengyl! Ai efengyl oedd y newyddion da hyny?

4. Nid y newyddion goreu oll a ddaeth i'n daear erioed, sef marw o Iesu Grist a'i adgyfodi, yw yr efengyl, ychwaith, ond *Awdwr* yr efengyl

yw Efe. Gallai dynion lamu o lawenydd am y newyddion daionus hyn, ac etto bod heb dderbyn un gronyn o'r efengyl wed'yn.

5. Nid y drefn, neu y cynllun allanol a wnaeth efe, ac a seliodd a'i waed er achub dyn, yw yr efengyl, ychwaith, ond y gallu dwyfol a ddeilliai drwyddo; onide mwynhäai y rhagrithiwr yr efengyl fel arall, ar ei ufydd-dod i'r cynllun hwnw.

6. Nid ordinhadau yw yr efengyl, er fod llawer o ordinhadau yn gysylltiedig a hi, canys dichon y dynion gwaethaf yn y byd weinyddu yr ordinhadau a ddeallant am danynt, ac i ddynion drygionus a hollol annheilwng; etto, fod y naill a'r llall yn hollol amddifaid o'r efengyl ar ol y cwbl. Wel, Beth yw yr efengyl?

7. Atebwn nad un dim a ddichon dyn gyflwyno i'w gyd-ddyn yw, ac ni ddichon y goreu o ddynion ond cyfarwyddo arall pa le, a pha fodd i'w chael hi. Er mor werthfawr yw hi, a chanddi addewid o'r bywyd sydd yr awr hon, ac o'r hwn a fydd, etto mae lle i ofni fod miloedd yn ei phroffesu yn selog yn ol y goleuni a feddant, pan nad y'nt yn deall beth yw yr efengyl! Diau bod lluoedd o ddysgedigion enwog drwy'r byd wedi bod, fel ag y sydd yn ein hoes ninnau, yn ceisio dysgu yr efengyl i ereill, a marw eu hunain cyn deall beth yw hi: ac nid rhyfedd hyn, canys nid yw yr efengyl yn gyfryw ac y dichon holl ddoethineb ddynol y ddaear o honi ei hunan, pe wedi ei chrynhoi ynghyd i'r un pen, ei deall na'i hadnabod, llawer llai ei meddiannu hi. Drwyddi hi y dygir ei meddiannydd i gymdeithas â, ac i adnabyddiaeth o'i hawdwr hi; a hysbysir ni gan Paul "nad adnabu y byd trwy ddoethineb mo Dduw," fod Duw wedi gwneyd doethineb y byd hwn yn ynfydrwydd; ac na allodd neb o hyd y nod tywysogion y byd hwn gael yr efengyl o honynt eu hunain. Nid rhyfedd fod cynnifer o wahanol farnau o barthed iddi gan y rhai a ddysgwyd gan y doethion yn unig, ynte.

Nid peth yw yr efengyl ag a ddichon dyn gyflwyno i feddiant un arall, canys dywed Paul nad un *ddynol* yw hi, ac nas derbyniodd efe hi gan ddyn, ond trwy *ddatguddiad* Iesu Grist. Nid all neb dderbyn yr efengyl ond gan Dduw, ac anmhosibl iddo ei derbyn heb fod hyny yn *ddatguddiad* oddiwrth Dduw yn uniongyrchol iddo ei hun. Er cymmaint a wawdir ar y rhai a gânt ddatguddiadau oddiwrth Ddnw, yn mhob oes gan grefyddwyr, ac yn yr oes hon hefyd, etto efengyl y *datguddiad* oedd efengyl Crist a'i apostolion, ac efengyl yn dwyn datguddiadau a barha i fod tra parha ei hawdwr yn anghyfnewidiol, a hithau yr un.

Weithiau gelwir yr efengyl yn "*drysor*," a diau mai trysor y trysorau yw hi; ïe, trysor sy'n fwy gwerthfawr na'r byd a'i gyflawnder. Trysor

yw hi hefyd na ellir ei chynnwys ond mewn "llestri pridd;" nid llestr o *bapyr*, o *lechau*, o *bapyrus*. nac hyd y nod o *aur coeth*. Nid addas dim i'w dderbyn ar ein daear ni ond dyn. Nid peth dynol yw hi ychwaith, onide pan ddryllid y llestr difethid y trysor.

Ond gan fod yn amlwg nad dim o'r pethau a nodwyd yw yr efengyl, efallai y credir Paul yn ateb y cwestiwn hwn. Dywedai efe wrth y Rhufeiniaid, pen. 1, 16, "Nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist, oblegid GALLU DUW yw hi er iachawdwriaeth i bob un sy'n credu." Cynnwysa y gair "*credu*" yma, ymddygiad gyferbyniol, sef ufydd-dod i'w orchymynion Ef, canys "ffydd heb weithredoedd marw yw." Nid nemawr a feiddiant addef eu bod yn credu yn nwyfoldeb y person dirmygedig hwnw, sef "Mab y Saer," a'r nad ufyddhaent i'w orchymynion; pan, erbyn hyn y mae yn hollol groes i hyny, sef y mae y *broffes* o hono Ef yn boblogaidd, a'r *ufydd-dod* i'w orchymynion dwyfol yn ddirmygedig!

Gwelir nad y *son* am, na'r *broffes* o, Dduw yw'r efengyl, canys gellir gwaeddi, Arglwydd, Arglwydd, mor uchel, ac mor gydwybodol ag y gwaeddai prophwydi Baal ar eu Duw, ac etto bod yn amddifad o'r efengyl. Gwelir nad *addewidion* Duw, ond y *cyflawniad* o honynt, yw'r efengyl. Nid y *peiriant*, na'r darluniad o hono, ond y *nerth* ymsymudol sydd ynddo, ynghyd â'r gwaith a wna, a arddengys yr efengyl. Nid doethineb, rhinweddau, na chydwybodolrwydd a sel dyn yw'r efengyl, ond y *gallu dwyfol* a weithreda ynddo a thrwyddo. Nid yn unig credu yn, ac ufyddhau i'r, wir ffurf o athrawiaeth, end y *nerthol weithrediadau* a fwynheir drwy ufydd-dod i'r ffurf o egwyddor, yw yr efengyl. Mewn gwir, y cyflwyniad o gyfran o allu gweithredol Duw trwy ddyn; neu Duw yn defnyddio dyn yn *offeryn* i wneyd y cyfryw beth. Dyma yw yr efengyl! Gwrthwynebir y gosodiad hwn oherwydd mai gan Dduw y derbynia pob dyn allu a nerth i gyflawni pob gweithred, nid yn unig fel ein Creawdwr, ond fel ein Cynnaliwr hefyd. Ond amlyga Paul yn eglur pâ fodd y mae yr efengyl yn "*allu Duw*," sef gallu i gael gafael ar "*iachawdwriaeth*," yr hyn allu nid oedd yn yr ystyr arall yn addawedig i ddyn. Cynnwysa y gair *iachawdwriaeth* yn yr ystyr helaethaf o hono, nid yn unig cyfnewidiad yn y cyflwr yma, ond "gallu i fod yn feibion i Dduw," yr hyn a gynnwysa fod yn gyffelyb iddo—pan fydd y marwol hwn wedi gwisgo anfarwoldeb, neu pan wedi eu cyfnewid i'r unrhyw ddelw, ac oll yn un ynddo ef, yn etifeddion i Dduw, ac yn gydetifeddion â Christ Iesu. Dywedir mai drwy yr efengyl y daeth bywyd ac anllygredigaeth i olenni; sef, "nerth bywyd annherfynol," neu rym yr adgyfodiad cyntaf, i fywyd tragwyddol. Drwy yr efengyl y cyfrana

Duw gyfran helaethach o'i allu i ddyn—y datguddia iddo fwy o'i ogoniant, a'i gyfiawnder, o ffydd i ffydd, neu yn gyferbyniol i gynnydd ein ffydd i dderbyn hyny, a chynnydda ein santeiddrwydd neu ein tebygolrwydd i Dduw yn gyfesur i hyny: megys y dywedir, "y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd." Hefyd, "y mae llwybr y cyfiawn fel y goleuni yr hwn a gynnydda fwy fwy hyd ganol dydd." Dyma fel y mae yr efengyl yn "allu Duw" yn dechreu gweithredu yma, ac yn cynnyddu nes gorwisgo ei blant â'r ty nid o waith llaw [llygredig] ond tragwyddol yn y nefoedd," yr hyn yw "*iachawdwriaeth.*" Yn 1 Thes. 1, 5, dywed Paul pa fodd yr oedd yr efengyl yn allu Duw;—"Eithr hefyd mewn *nerth*, ac yn yr Ysbryd Glân, ac mewn *sicrwydd mawr.*" Gwelir mai yr Ysbryd Glân yr hwn a ddeilliai oddiwrth y Tad yn ol addewid y Mab, oedd yn cyfranu y *nerth*, ac yn nerthol weithio ynddynt hwy; ac yn cyd-dystio a'u hysbryd hwy eu bod pryd hyny yn blant i Dduw; ond etto fod y derbyniad o'r "mabwysiad, sef prynedigaeth y corff," yn dibynu ar eu ffyddlondeb i barhau hyd y diwedd. Wrth hyn gwelir fod yn anmhosibl i neb fo wedi mwynhau yr efengyl fod mewn amheuaeth yn ei chylch, gan ei bod yn cyfranu "sicrwydd mawr" oddiwrth Dduw i ddyn. Dywed Crist hefyd yn Act. 1, 8, "Eithr chwi a dderbyniwch NERTH yr Ysbryd Glân wedi y delo arnoch." Amlwg yw bellach mai cyflawniad o gyfran fwy neu lai o allu Duw i ddyn yw yr efengyl, a hyny drwy ei Ysbryd Glân. Dim llai na nerthol weithrediadau hwn ni ddichon fod yn efengyl Crist.

Ceir lluaws o enghrcifftian yn y Testament Newydd i arddangos amrywiol nerthoedd yr efengyl, nid yn unig yn mawrion weithredoedd ei Hawdwr galluog, ond drwy ei weision ef hefyd yn ol ei addewidion. Sylwer ar Pedr, y pysgotwr diddysg, yn synu areithwyr hyawdlaf y gwledydd a'i ddawn, ac yn gwneuthur doethineb y Sanhedrim ddoeth ei hun yn ffolineb. Yn ddewr tystiai yn ngwyneb y llu mai Mab Duw yn wir oedd y "Mab y Saer" a laddasent hwy, nes llefain o'r llofruddion drwg wrth ei draed am eu bywyd. Yn y temlau gwych, ac yn mhlith y gwisgoedd sidan, ymddysgleiriai ei wisg pysgota ef; ac nad pa mor wael ei olwg, trwy ei ffydd cydiodd yn y cloff, a thrwy nerth efengyl Duw gwnaeth iddo neidio a llammu o lawenydd. Pam y cynhyrfa y dinasoedd, ac yr ymfyddina y deillion, y cloffion, a phob rhyw o gleifion ac anafusion, i'r heolydd, rhai ar feirch, rhai ar fulod ac elorau, ac ereill ar welyau, pa rai ni welsent yr haul braidd yn eu hoes? O, un o'r "llestri pridd" a gynnwysai drysor nerthol, oedd i ddyfod heibio, ac ymdrechent gael, pe ond cysgod ei wisg, i'w cysgodi

hwynt. Pam y gorfoledda heddyw y rhai oedd yn fyddariaid ddoe? Oherwydd efengyl "gallu Duw" a ddaeth i'w plith. Yr ellyllon duon a lefent yn groch rhag ei harswyd hi, diangent o'i blaen tuhwnt i'r gagendor, gan ddewis poenau Tophet yn hytrach na dysgleirdeb ei thywyniad hi. A'i hanadl chwythodd y celwyddwyr mewn eiliad i wyddfod eu barnwr, a'u celwydd megys etto rhwng eu dannedd. Dro arall, gwelid y trysor hwn mewn truan gwael yn llwythog dan bwn o gadwyni haiarnaidd o fewn i'r eigion ddorau, ac etto yn dawel cysgai rhwng y milwyr, fel pe buasai ei ben ar fynwes ei frawd hynaf. Ond cyn hir daeth seraph tanllyd o deulu ei Dad, ac a'i tarawodd ar ei ystlys, fel arwydd o'i bod yn llawn bryd iddo ddeffro; ac ar hyn dryllіodd y cydwyni haiarnaidd fel rhwyd y pryf copyn, ac ymagorodd yn rhwydd y dorau anferth ar eu pegynau rhydlyd o'i flaen, er gwaeled oedd; ac er na adawai y pryfed mân i'w erlidiwr fyw, ond "gan bryfed yn ei ysu y brenin a drengodd," etto aeth Pedr a'i drysor ymaith yn fyw. Wele yma gyfran fechan o efengyl Mab Duw.

Stephan efengylaidd, pan ar fin tranc o dan y gawod geryg a ddrylliai ei lestr pridd, yr oedd y trysor dwyfol yn meddiant y rhan ysbrydol ac anfarwol o hono. Agorai y drysau tragwyddol o'i flaen; ac fe ddaeth ei Dad a'i frawd hynaf i'w wahodd ef a'i drysor i mewn i'r baradwys. Wrth hyn gwelir gallu yr efengyl i ddwyn ysbryd y dyn i'r lan serch dryllio ei lestr yn chwilfriw. Iago ac Ioan, dynion llariaidd, a Boanerges mawr eu trwst; hefyd Philip, Luc, ac Apolos ddoniol, oeddynt ddynion glân yn llaw eu Duw i ddala y trysor dwyfol hwn. Apostol mawr y Cenedloedd, ar fynydd Mars, a ga'dd deimlo mai gelyn cas yw eilun dyn. Weithiau cawn ef dros y mur yn grogedig mewn basged, fel y pryf copyn yn ei rwyd, yn dianc gyda'i drysor o wydd erlidwyr Crist. Dro arall ehedai ar adenydd seraph i'r entrych, ac agorai dorau y drydedd nef er mwyn ei drysor—ac nis cawn wybod pa groesaw a gafodd. Bryd arall tarawai ei elyn â thywyllwch tragwyddol, trwy rym ei ffydd; er hyny gwel ei gefn yn gwysau gwiail hallt, a'i ben o dan garn o geryg wedi ei adael megys am farw—etto gwelir nerth anferth ei drysor yn ei godi i'r lan, ac yn siglo gliniau breninoedd a llywiawdwyr fel dail aspien, gan ddychryn ei leferydd am gyfiawnder, dirwest, a'r farn a fydd—capteniaid a barnwyr a aent yn fud, pan ddylifai doethineb, dewrder, a daioni, yn hyf o'i enau ef. Pwy a all brisio na thraethu gwerth y trysor hwn, na dysgrifio nerth a grym efengyl Crist? Beth dâl y ffurf heb feddu "ei grym hi?" Er fod graddau yngrym yr efengyl yn ei gweithrediadau drwy ddynion,

etto y mae yn gynnyddol gyfartal i gynnydd eu doethineb. Nerthol weithrediadau yr efengyl a gyflawnodd yr holl nerthoedd gynt drwy'r patriarchiaid, o Adda, Enoch, Abraham, Moses, a'r holl brophwydi. Dyma a'u galluogodd i oresgyn teyrnasoedd, i gau safnau llewod, i ddiffodd angerdd y tân, ac i ddianc rhag min y cleddyf. Hyn, trwy rym eu ffydd, a adferodd iddynt eu meirw yn fyw, a'u nerthodd i ddyoddef pob gwawd, dirdynu, fflangellu, a charcharau. Drwy yr efengyl dibrisiasant bob rhwymau, y cleddyf, a'r meini llabyddiol, gan ddewis yn hytrach grwydro mewn ogofeydd, anialwch, a thyllau y creigiau, mewn crwyn geifr, na derbyn ymwared ar gost eu trysor dwyfol. Mor fawr y prisient ef!

Gan mai nerthol weithrediadau Ysbryd Duw drwy ddynion, megys yn ei wahanol ddoniau ysbrydol, yw yr efengyl, y mae yn canlyn mai dysgu dynion y ffordd i dderbyn y pethau hyny, gydag addewid sicr a diammheuol dros Dduw y derbyniant y cyfryw, ydyw *pregethu yr efengyl.* Y modd y pregethai prif apostol ein daear unwaith yr efengyl, oedd, "A chwi a dderbyniwch DDAWN yr YSBRYD GLAN," Act. ii, 38. Nid ystyriwn fod pob areithio, nad pa mor hyawdl—nad ydyw yr oll a allai holl ddoethineb ddynol y byd ei draethu, yn bregethu yr efengyl, oddieithr y cynnwysai addewid o "ddawn yr Ysbryd Glân," yngbyd â desgrifiad o'r ffordd i'w gael. A dyma paham y dywedasom na ddichon un dyn, nad pa mor ddoeth, doniol, a da, bregethu yr efengyl o hono ei hun, oddieithr ei fod yn gwybod ddarfod i Dduw ei anfon i alw dynion, ei hawlio i addaw y "gallu Duw" hwn iddynt os ufyddhaent. Ni cheir neb yn addaw hyn ond gweision Dduw, oherwydd pe addawai ereill hyn, gwyddant y byddai y diffyg o hono wed'yn yn ffaith ddigonol i'w profi hwy yn dwyllwyr, ac y darfyddai eu crefft. Pan o'r ochr arall, oherwydd eu hanfoniad dwyfol, gwyr gweision Duw y cyflawna Efe yr hyn a addawant hwy yn ei enw Ef, ac oherwydd eu bod hwy yn gwybod cariad Crist y maent mor daer i berswadio dynion i ufyddhau, ac mor eofn i sicrhau fel Pedr gynt, "A chwi a dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glân."

Hawdd yw canfod wrth hyn y gwahaniaeth mawr ag sydd rhwng pregethwyr efengyl gallu Duw, a phregethwyr traddodiadau ac athrawiaethadau dynion. Dywed y blaenaf fod yr efengyl a bregethant hwy yn ei phrofi ei hun, neu yn hytrach fod eu Meistr hwy yn ei phrofi hi yn wirioneddau dwyfol, drwy gyfranu doniau ei Ysbryd Glân i'w hufyddion, ac o ganlyniad yn profi yr anmhosiblrwydd o'u bod hwy yn dwyllwyr. Ond y lleill yn hollol groes a disail a haerant nad oes

addewid am, "nac eisieu y doniau ysbrydol yn yr oes oleu hon." Gwelir nad oes un ffordd arall ganddynt i gyfiawnhau eu hunain yn eu holl groes-gredoau, ac i bregethu y gwahanol efengylau; canys pe addefent yr anghenrheidrwydd am y doniau ysbrydol, ac etto yn gorfod addef eu hamddifadrwydd o honynt, deuai eu twyll i'r amlwg. Etto hawdd i bob dyn rhesymol ganfod fod hóni yr anghenrheidrwydd am efengyl Crist, a gwadu yr anghenrheidrwydd am ddoniau Ysbryd Crist, yn wrthddywediad pendant, oherwydd mai dyna yw efengyl Crist, sef gallu Duw—mai dyna y modd y mae hi yn nerth o'r uchelder. Proffesu yr efengyl, a gwadu ei thystiolaeth hi, sef y sicrwydd mawr a ddyry hi o'n perthynas â Duw drwy y cyflawniad o'i addewidion, sydd hefyd yn wrthddywediad, oherwydd ni ddichon gair yn unig fod yn efengyl, na dim amgen na'r hyn a ddug "sicrwydd mawr." Yr un peth yw haeru nad oes eisieu yr efengyl, a haeru nad oes eisieu doniau yr Ysbryd Glân, canys yr olaf yw y blaenaf.

Nid oes sail mewn nac ysgrythyr na rheswm i ddywedyd y diddymid y doniau ysbrydol ddim cynt nag y diddymid yr efengyl o'r byd. Lle y mae y naill, yno y mae y llall, ac anmhosibl i'r naill fodoli heb y llall, oherwydd yr un ydynt. Gan mai y doniau yw yr efengyl, dywedyd mai er sefydlu yr efengyl gynt y rhoddwyd y doniau, yw dywedyd fod yr efengyl wedi cael ei rhoddi er ei sefydlu ei hun, a'r un peth yw hyny ag addef yr angheu am yr un efengyl yn allu Duw, yn yr un modd er ei sefydlu ei hun yn mhob oes a gwlad, ag yn oes yr apostolaidd. Gofyn i weision Duw ddangos y doniau hyn i anghredinwyr, neu wneyd gwyrthiau er dwyn rhai i gredu yr efengyl, yw croesi trefn Duw yn hollol; oherwydd Duw sydd yn cyfranu y gallu hyny fel ag yr ewyllysia Efe; ac nid yw wedi ei addaw i neb cyn, ond wedi, iddynt hwy ufyddhau i'w dyledswyddau yn ol galwad ei weision. Ni addawodd Pedr ddawn yr Ysbryd Glân i neb ond WEDI yr ufyddhaent i'w alwad, sef "EDIFARHEWCH a BEDYDDIER pob un o honoch yn enw Iesu Grist ER MADDEUANT PECHODAU [ac wedi y gwneloch hyn ac nid cynt], chwi a dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glân." Y mae mor hollol afresymol gofyn am y doniau hyny cyn ufyddhau yn awr, ag a fuasai i'r rhai hyny ofyn felly i Pedr; ac y mae yr hwn a wnelo hyny am fynu mwynhau y bendithion hyny yn ei ffordd ei hun, gan wrthod a diystyru y ffordd a drefnodd Mab Duw i'w mwynhau gyda sicrwydd; ac nid oes esiampl ddarfod i Fab Duw na'i weision wyrdroi y drefn osodedig unwaith erioed i foddio y cyfryw.

Nid drwy wneyd gwyrthiau i'r anghredinwyr y profai gweision

Duw eu danfoniad ychwaith, ond drwy bregethu Crist croeshoeliedig, galw ar y credinwyr ynddo i edifarhau am eu pechodau, eu bedyddio er maddeuant o honynt, ac yna trwy arddodiad eu dwylaw hwynt cyfranai Duw i'r ufyddion eu hunain ei ddoniau ysbrydol, pa rai a fyddant yn ffeithiau anwadadwy er profi eu danfoniad hwy ganddo i iawn weinyddu ordinhadau ei efengyl. Duw sy'n profi danfoniad ei weision, ac nid hwy yn profi eu danfoniad eu hunain. "A hwy a aethant allan, ac a BREGETHASANT [nid a wnaethant wyrthiau] yn mhob man, a'r Arglwydd yn cydweithio, ac yn cadarnhau y GAIR [nid y gwyrthiau, nac yn rhagflaenu y gair trwy wyrthiau] trwy arwyddion y rhai oedd yn CANLYN." Nid yn rhagflaenu, ond yn dylyn y rhai a ufyddhasent i'r galwad. Yma gweler hefyd nad yr ordinhadau, ond y gallu dwyfol a gyfranai Duw drwy ei ddoniau ar ol ufyddhau, yw yr efengyl, neu ynte o'r ochr arall, y dwfr sydd yn golchi ymaith bechodau—y dwylaw sydd yn cyfranu yr Ysbryd Glân; a'r bara yw corff, cynnwysiad y cwpan ydyw gwaed Crist. Ac os felly y mae, byddai dynion yn hollol annibynol ar Dduw am ei allu a'i nerth, a addawwyd gan ei Fab. Os na addefir hyna, rhaid addef yr hyn a ddywedasom eisoes, sef mai y doniau a dderbynir gan Dduw ar ol ufyddhau i'w ordinhadau yw ei efengyl.

Yn awr ddarllenydd hynaws, hysbyswn y newyddion gorfoleddus ddarfod i Dduw o'i ddaioni ddanfon "Saint y Dyddiau Diweddaf," i bregethu yr efengyl *hon*. ac nid dim yn amgen nag efengyl gallu Duw megys cynt. Ac yn ei enw Ef galwn ar ein cyd-ddynion i gredu yn ei Fab Ef a'n holl galon—i edifarhau am eu pechodau, ac i benderfynu ei wasanaethu Ef yn ffyddlon, drwy gadw ei orchymynion yn ol yr ysgrythyrau, cymmeryd eu bedyddio er maddeuant pechodau, a thystiwn hefyd mai *chwi a dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glân;* ac felly profa ein Duw ein danfoniad ninnau yn ddiwrthbrawf, serch i holl bregethwyr gau efengylau y byd yn unllais ddywedyd yn ein herbyn, fel y dywedent yn erbyn yr un efengyl gynt. Ac yn olaf cymhellwn, nac ymryson a chig a gwaed, ond dyred a gwel mai gwir yw'n cenadwri.

## ANERCHIAD AT Y CYMRY.

Anwyl Gydwladwyr,—Wrth anfon yr anerchiad hwn i'ch plith, taer erfyniwn eich sylw difrifolaf arno. Gwnewch degwch a'ch eneidiau eich hunain a'r gwirionedd wrth ei ddarllen, fel y derbynioch y lles a amcanwn wrth ei gyhoeddi. Gwyddom y cynnwysa lawer o ddywediadau pwysig, y rhai sy'n dwyn perthynas agos â phob un o honoch; ac er y dichon amryw bethau ynddo ymddangos yn newydd ac yn anmhoblogaidd ar yr olwg gyntaf, etto byddwch bwyllog, canys yr un yw eich Beibl chwi a ninnau. Yn y glorian gywir hon, gan hyny, y pwyswn bob egwyddor.

Gwyddom ein bod (trwy drugaredd ein Duw) yn feddiannol ar drysorau dwyfol a gwerthfawr, pa rai a'ch cyfoethogant chwithau yn dragwyddol. Yr ydym wedi ein hanrhegu â'r perl nefol hwnw ag yr ymchwiliwch chwi am dano, o gapel bwy gilydd, ac o'r naill enwad i'r llall, ar hyd y blynyddoedd—sef crefydd bur—egwyddorion y nef—yr *efengyl dragwyddol*, yr hon sydd yn dwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni. Yr ydym yn gwneyd a allom i gyflwyno gwybodaeth o honi i chwithau yn mhob dull a modd a allwn; ac er mor ddaionus yw, y mae miloedd o honoch yn diystyru cynghor Duw yn eich herbyn eich hunain, heb ufyddhau i, na gwrando ar, yr alwedigaeth nefol a phwysig a gynnygir i chwi.

Y mae ugeiniau o honom yn cyhoeddi y newyddion da hyn yn eich plith er's rhai blynyddau bellach, ar ein cost ein hunain; a pha dderbyniad a geir? Gallesid dysgwyl yn rhesymol i'r rhai hyny a addefant wirionedd y grefydd Gristionogol yn ei sefydliad cyntefig a phur, ac a broffesant y fath fawr sel drosti, ei chofleidio fel trysor y trysorau pan y clywent hi etto yn cael ei phregethu genym ninnau yn ei chyflawnder, wedi ei hail-sefydlu fel cynt, a'i phregethwyr wedi eu danfon drwy awdurdod dwyfol fel yr anfonwyd yr apostolion gynt, pa rai a ganmolwch gymmaint.

Ond gwyddoch chwi mai hollol groes i hyny y mae. Pa well derbyniad a gaiff anfonedigion Duw genych chwi yn awr, yn enwedig gan y rhai selog dros draddodiadau y tadau, nag a gaffai y cyffelyb anfonedigion gyda'r un fath genadwri gan eu cydoeswyr hwythau? *Rabbies*, dysgawdwyr, a chrefyddwyr mwyaf selog y wlad oedd eu gelynion penaf hwynt. Dyma y rhai a bregethent fwyaf o'r pwlpudau i'w herbyn, a adroddent fwyaf o chwedlau disail âm eu cymmeriadau, ac a gyhoeddent mai twyll oedd ganddynt, ac mai twyllwr oedd eu blaenor, a hyny heb gynnyg un prawf o ddim, ond eu haeriadau. Onid felly yn hollol yr ymddyga y cyfryw tuag atom ninnau? Y croesaw goreu a gaffent hwy gan hudolion y cyfryw oedd, gwaeddi gau-brophwydi, gau-athrawon, twyllwyr, &c., ar eu hol yn yr heolydd. Felly ninnau. Onid oedd awduron eu hoes yn taenu pob camgyhuddiadau disail am danynt hwy, heb gymmeryd y drafferth i chwilio beth oeddynt. Felly y gwnant a ninnau. Oni throent hwynt, a'r rhai a'u gwrandawent, allan o'u synagogau? Onid felly y gwneir â ninnau, ac â'r rhai gonest eu calon ag sydd yn chwilio am y gwir? Oni ddywedodd Crist mai felly y gwnaent? ac felly y mae.

Dywedid am danynt hwy, "Y rhai sy'n aflonyddu y byd, y rhai hyny a ddaethant yma hefyd." Felly y clywn ninnau bob lle yr elom. "Beth a ddywed y siaradwr hwn?" meddai un; "Mae y rhai hyn yn aflonyddu'r ddinas," ebe arall am danynt hwy. Felly ein cyhuddir ninnau. Dygant athrawiaeth newydd i'n plith, yr hon nid yw weddus i ni ei derbyn, meddent am danynt hwy. "Y mae y rhai hyn yn pregethu *efengyl newydd*, yr hon nid yw weddus i ni, sectariaid, ei derbyn," meddant yn awr am danom ninnau. Oni ddywedodd ein Harglwydd mai felly y gwnai gau-grefyddwyr a'r gwir? Do; ac y mae ein cydoeswyr yn profi ei eiriau ef a'n crefydd ninnau, mor wirioneddol yn yr oes hon a hono. "Y neb a fyddo fyw yn gyfiawn yn Nghrist Iesu, a erlidir," oedd y pryd hyny; felly y teimlwn ninnau yn ddigon gwir; a phe cydmerid ni a hwythau yn mhob nodwedd, ac ymddygiad ein cydoeswyr atom ninnau a'n crefydd, gwelid fod yr un achos yn dwyn yr un effaith yn yr oes hon â hono. Paham nad yw hyn oll yn dystiolaeth i chwi, gyfeillion hynaws, o'n tebygolrwydd iddynt hwy? Paham y cyflawnwch chwi fesurau, ac y dilynwch gamrau yr erlidwyr a fu, a'ch llygaid yn agored? Onid oedd eu crefydd hwynt yn annhoblogaidd y pryd hyny? Pa ryfedd fod yr un grefydd mor annhoblogaidd yn ei hail ddechreuad yn awr? "A gredodd neb o'r penaethiaid?" ebe y naill. O na, "ysgubion y byd a sorod pob dim" ydynt, ebe y lleill y pryd hyny. Felly yn awr. Pregethu i'r tylodion yn rhad yr oeddynt hwy. Felly ninnau. Perswadio y bobloedd i beidio eu gwrando yr oedd pregethwyr yr oes hono, eu bod islaw eu sylw hwynt. Felly yn awr, yn gywir. Ofni y byddai gobaith eu helw yn pallu a gyffroai y rhai hyny. Barnwch chwi ai dyna'r achos paham yr ymesyd marsiandwyr a chrefftwyr crefyddol yr oes hon arnom ni! Yr oedd iachawdwriaeth eu cydoeswyr yn nglyn ag ufyddhau i'w cenadwri hwy. Felly yn awr, ddarllenydd hynaws, y mae mor sicr fod maddeuant, adgyfodiad, dyrchafiad, a gogoniant ein cydoeswyr, yn dibynu ar eu hufydd-dod i genadwri Saint y Dyddiau Diweddaf; ïe, pe dywedai holl bobl y byd yn ddrwg am danynt, gwyddom fod Duw'r nefoedd wedi eu danfon. Gwyddom, Gymry anwyl, er ein gwaeledd. Tystiwn yn ddifrifol a sobr yn ofn Duw, fel y byddom lân oddiwrth waed pawb oll. Yr ydym ni wedi derbyn allweddau goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd—gweinidogaeth y cymmod, sef goruchwyliaeth yr unfed awr ar ddeg! Mae Arglwydd y cynauaf wedi ein danfon gyda chenadwri i gasglu ei wenith i'w ysgubor, cyn y daw efe i losgi yr us a t! an anniffoddadwy. Etto, tystiwn yn dra eofn nad aiff eich oes na'ch cenedlaeth chwi heibio, hyd oni phrofa Duw Israel tuhwnt i bob dadl, fod Saint y Dyddiau Diweddaf wedi eu danfon ganddo i ddarpa. u ffordd ei ail ddyfodiad, ac y prawf bob iot a phob teitl o'u cenadw i yn wirionedd safadwy. Onid yw y dystiolaeth hon o bwys i chwi, ac yn arogl o fywyd i fywyd, neu o farwolaeth i farwolaeth, i bob un a gaffo y fantais o'i chlywed? Nid yw esgeulusdod gwirfoddol yn un esgusawd i neb. Y pwysfawrogrwydd o honi a'n cymhellodd, ïe, a'n gorfoda i fod mor blaen tuag atoch; a gwae ni oni wnawn hyn; anghenrhaid a osodwyd arnom. Atebwch chwi, onid yw tystiolaeth fel hyn yn deilwng o'ch gwrandawiad, a'ch hymchwiliad manwl? Gw r yw, Gymry anwyl; chwiliwch a phrofwch ni yn deg, a dangoswch ein-

gyfeiliornadau, os gellwch; a byddwn ddiolchgar i chwi. Yr ydym yn atebol i Dduw am yr hyn a ddywedwn; gwyddom hyny hefyd, ac etto carwn a deisyfwn arholiad ar ein crefydd o flaen brawdlys gair digyfnewid y Barnwr cyfiawn hwnw. A brofodd rhyw un yn y wlad un o'n hegwyddorion yn gyfeiliornus yn ol y Beibl? Naddo, ddim un! Gwir i lawer brofi camgyhuddiadau ein gelynion arnom yn wrthun iawn. A pha beth sydd i ni a wnelom a hyny hyd onid ymosodant ar yr hyn a gredwn, ac nid ar yr hyn a wadwn ni fel hwythau. Hyd oni wnelont hyn, pa reswm ein herlid, ein difenwi, a gwrthod gwrando arnom? Etto, o'n rhan ni, erlidier a fynoch, a diolchwn ninnau am yr anrhydedd a'r nerth i ddyoddef ar gam, er mwyn y gwirioneddau dwyfol hyny ag y rhoes ein brodyr a'n Harglwydd eu bywydau yn ebyrth gwirfoddol drostynt; ac er hyn oll, er eich hargyhoeddi chwi sy'n ceisio crefydd a grym ynddi, a'ch dwyn yn etifeddion sylwedd, tystiwn, a pharhawn i egluro y genadwri a ymddiriedwyd i'n gofal; a ni yn gwybod tra parhawn felly y cawn roddi i fyny ein cyfrif yn llawen pan y del ein Meistr i'w ogoneddu yn yr holl rai a gredant ac a ufyddhant i'n tystiolaeth. Nid ydym heb deimlo ein hannigonolrwydd i'r fath orchwyl â hwn, ond gwyddom fod y breichiau tragwyddol odditanom. Gwyddom hefyd mai yr hwn a draetha wirioneddau mawrion a lliosog i'w gydoeswyr, a ennilla iddo ei hun elynion lliosog a chedyrn drwy hyny. Poblogrwydd yr oes yw gelyn cryfaf y gwir, os tyr dros ei geulanau ef: a than yr amgylchiadau presennol, pe meddem ninnau ar glariwn angylaidd—y sel apostolaidd—a chalonau mor eang a thragwyddoldeb—a doethineb y nefoedd—a chariad Duw yn llosgi yn fflam enynol yn ein mynwesau, ac wedi ein hanfon i draethu y genadwri oreu a ddygwyd o'r drydedd nef erioed gan Michael yr archangel; etto, byddai mor anmhosibl i ni gyflwyno gwybodaeth o honi i'r werin yn awr ag oedd i Paul brofi dwyfoldeb eu Messia croeshoeliedig yn Ephesus, pan foddid ei lais yn nghanol y fonllef fawr hono, "Mawr yw Diana yr Ephesiaid."

Gymry, pa hyd y bydd hoff genych watwar, ac y trowch y glust fyddar at y genadwri bwysig hon o'r nefoedd? Cofiwch na anfonodd Duw erioed genadwri i'n byd, a'r nad oedd gwaredigaeth dymmorol ac ysbrydol yr oes hono yn dibynu ar eu hufydd-dod iddi. Cofiwch pa dderbyniad a gafodd Noah, a'r canlyniad o wrthod ei genadwri! Cofiwch Sodom a Gomorah, a dinystr yr Iuddewon, er mor selog oeddynt dros draddodiadau y tadau. Cofiwch hefyd ddywedyd o'n Harglwydd yn eglur yn eich Beibl chwi a ninnau, mai "megys yr oedd yn nyddian Noah, felly y bydd yn nyfodiad Mab y dyn." Cofiwch ddywedyd hefyd o hyn wrthych, fod Duw wedi danfon Saint y Dyddiau Diweddaf i'ch rhybyddio, fod yr amser yn agos iddo wneuthur i fyny ei briodoledd, pan y gwelwch ragor rhwng yr hwn a wasanaetho Dduw, a'r hwn a wasanaetho ddynion. Yr Arglwydd a agoro eich llygaid mewn pryd, fel y galloch ddianc rhag y llid a fydd, a bod yn ddiangol yn nydd digofaint yr Hollalluog. Amen.

---

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES, RHYDYBONT.